PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD LLUN, 12 CHWEFROR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ebrahim, Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson, Sattar a/ac Stubbs |

45 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDENB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

46 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

47 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

48 : CYNIGION DRAFFT AR GYFER CYLLIDEB 2018/19 A CHYNLLUN CORFFORAETHOL 2018 – 2021

**Trosolwg Corfforaethol**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver (Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad), Christine Salter (Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau) ac Ian Allwood (Pennaeth Cyllid) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad, ac ynddo, dywedodd y Cynghorydd fod strategaeth y gyllideb wedi'i gosod yr haf diwethaf, y byddai cap o 30% ar ysgolion, bod angen gwneud arbedion gwerth £14 miliwn, a bod bwlch o £6.4 miliwn a fyddai'n cael ei lenwi gan gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor. Cadarnhaodd y bydd £54k yn cael ei neilltuo i'r gronfa lyfrau yn y flwyddyn i ddod. Dywedodd fod y gyllideb hon wedi bod yn anodd, ond roedd yn uchelgeisiol, mae'n nodi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y pum mlynedd nesaf, cynllunio Ysgolion ac adnewyddu asedau. Roedd y gyllideb yn un gytbwys, ac yn canolbwyntio ar amddiffyn gwasanaethau craidd a buddsoddi yn nyfodol y ddinas.

Rhoddodd Christine Salter gyflwyniad i'r aelodau ar Gynnig Cyllideb y Cabinet 2018/19, a thynnodd sylw at wybodaeth allweddol am Drosolwg y Setliad Terfynol, yr Ymgynghoriad, y Gyllideb Refeniw Ddrafft, y Rhagolwg Tymor Canolig a'r Rhaglen Gyfalaf Ddrafft.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Gofynnodd Aelodau am eglurdeb ynghylch y cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor a chynnydd o 4.3% yn y dyfodol. Eglurodd swyddogion mai dyma'r rhagdybiaeth bresennol, roedd yn fwlch mawr i'w lenwi, roeddynt wedi edrych ar gynnydd dros y pum mlynedd ddiwethaf ac wedi'i gyfartalu, roedd yn rhagdybiaeth ar yr adeg hon.

- Nododd Aelodau ymatebion i'r ymgynghoriad a'u bod wedi'u gwyro tuag at Ogledd Caerdydd, pobl dros 55 oed, ac ati. Nodwyd ei bod hi'n anodd iawn ymgysylltu â dinasyddion De-ddwyrain/Dwyrain Caerdydd a gofynnwyd sut ellir gwella hyn. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio ar ddulliau i wella ymgysylltiad, awgrymodd y gallai ysgrifennu at gadeiryddion pwyllgorau caffael yn gofyn am awgrymiadau hefyd. Mae'r tîm perfformiad yn ymwybodol o'r mater ac yn chwilio am ffordd o gydbwyso ymgysylltiad.
- Gofynnodd Aelodau a allai'r ffigyrau, yn y tymor canolig, gael eu hollti gan bwysau a bwlch mewn cyllid. Cytunodd yr Aelod Cabinet fod angen gwahaniaethu rhyngddynt, ac ychwanegodd fod mwy o arian wedi dod i law, ond bu twf ym mhwysau demograffig.
- Gofynnodd Aelodau am fwy o wybodaeth am ddadansoddiad yr asesiad risg o ran y cynigion arbedion, gan nodi nad oedd ond 5% ar y cam manwl y llynedd. Dywedodd y swyddogion ei fod hyd yn oed yn anos gyflawni'r effaith gronnol ar yr holl arbedion, roedd angen dulliau mwy arloesol o wneud arbedion ac roedd hyn yn anos i'w gynllunio'n fanwl. Rhoddodd y swyddogion sicrwydd fod yr asesiadau risg wedi bod yn drylwyr a chadarn. Nododd Aelodau fod yr arbedion y cyfeiriwyd atynt ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol yn bennaf.

**Cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd), y Cynghorydd Russell Goodway (Aelod Cabinet – Buddsoddi a Datblygu), y Cynghorydd Peter Bradbury (Aelod Cabinet – Diwylliant a Hamdden), Neil Hanratty (Cyfarwyddwr – Datblygiad Economaidd) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Arweinydd i wneud datganiad, ac ynddo dywedodd fod llawer o gynnydd wedi bod yn y Fargen Ddinesig dros yr 8/9 mis diwethaf, ei fod yn fodlon iawn ar y cydweithio rhwng y rhanbarthau a rhwng pleidiau. Yn ehangach o ran yr Uchelgais Prifddinas, roedd Caerdydd yn tyfu a chydnabuwyd bod rhaid i bob project gyflawni ar gyfer cymunedau ledled y ddinas. Nododd yr heriau o ran anghydraddoldebau mewn perthynas â chyllid ac iechyd ac y byddai'r gyllideb uchelgeisiol hon yn cyflawni rhaglen trawsnewid.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bradbury i wneud datganiad, ac ynddo dywedodd mai dyma'r gyllideb fwyaf cadarnhaol a oedd wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor ers blynyddoedd lawer. Roedd wedi cynnwys rhai o brif fanylion y gyllideb, megis £150k o arbedion o ran diswyddo gwirfoddol a swyddi gwag; buddsoddi mewn parciau ac offer; targedau incwm yn seiliedig ar berfformiad eleni; £306k o fuddsoddiad cyfalaf yn Neuadd Dewi Sant a rhewi prisiau ar gyfer pêl-droed, rygbi a phêl-fasged ac ati.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Goodway i wneud datganiad ac ynddo dywedodd mai dyma'r gyllideb gyntaf mewn pedair blynedd nad oedd rhaid i'r tîm Datblygu Economaidd gynnal gostyngiadau aruthrol ar ei chyfer. Nododd fod rhaid i beth bynnag a wneir mewn perthynas â datblygu a buddsoddi fod mewn partneriaeth gan na all y Cyngor eu cyflawni ar ei ben ei hun mwyach. Ychwanegodd ei fod yn bwysig adeiladu ar lwyddiant y 6/7 mis diwethaf ac y byddai'r dyfodol yn galonogol, gan nodi bod yna well awydd ymysg y Sector Preifat i siarad â'r Cyngor â chynlluniau clir y mae gan bobl hyder ynddynt.

Rhoddodd Neil Hanratty gyflwyniad i'r Aelodau ar Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd - Cynigion Cyllideb, a thynnodd sylw at y wybodaeth allweddol am Amcanion Cynllun Corfforaethol, Mesurau Perfformiad, Cyfanswm Cynigion Arbedion y Gyfarwyddiaeth, a Rhaglen Gyfalaf 2018/19

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Gofynnodd Aelodau pryd yn 2018 y byddai'r gwaith o ddatblygu'r orsaf fysys yn cychwyn a rhoddwyd sicrwydd iddynt y byddai'n dechrau'n fuan.

- Nododd Aelodau'r cyfeiriad at ofod swyddfa Gradd A, a bod y Sgwâr Canolog yn lleoliad amlwg, a gofynnwyd pa leoliadau eraill oedd wedi cael eu hystyried. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Sgwâr Canolog, Cei Canolog, Sgwâr Callaghan ac o amgylch Bae Caerdydd yn cael eu hystyried yn ofod swyddfa Gradd A. Ychwanegodd fod lle am 15k o swyddi swyddfa yn y lleoliad yn y Bae.

- Roedd yr Aelodau'n falch bod yr Aelod Cabinet yn cydnabod bod anghydraddoldebau yn bodoli yn y Ddinas a gofynnodd a oedd yr Aelod Cabinet yn hyderus y byddai dinasyddion cyffredinol yn elwa ar y cynlluniau i foderneiddio a datblygu Caerdydd. Defnyddiwyd Dumballs Road fel enghraifft, lle mae'r datblygiad yn golygu y bydd angen i nifer o fusnesau bach adleoli. Nododd yr Arweinydd ei fod wedi ymweld â Dumballs Road yn ddiweddar ac wedi trafod â pherchenogion busnes ynghylch adleoli neu aros lle mae lle i aros. Buddiant y Cyngor o ran Dumballs Road yw darparu tai o ansawdd da sydd o fewn cyrraedd hawdd at swyddi yng nghanol y ddinas, byddai buddsoddiad da mewn addysg a bydd gwaith yn cael ei gyflawni â'r sector preifat i ddarparu swyddi o safon. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet nad oedd agenda datblygu economaidd llwyddiannus yn perthyn i berson nac ychwaith i sefydliad oherwydd rhaid i rywbeth sydd mor hir dymor berthyn i'r bobl sy'n byw yn y ddinas; mae angen partneriaid i gyflawni'r agenda dros amser. Ychwanegodd fod angen nodi meincnodau ar hyd y ffordd, a bod angen cyfnodau adolygu; mae'r Cyngor wedi methu i wneud hyn yn y gorffennol agos mewn perthynas â Bae Caerdydd, ac roedd hi'n bwysig ei gynnwys yn y broses ac y cedwir at yr addewidion a wnaed i'r bobl.

- Nododd Aelodau'r prif gynigion am arbedion a gofynnwyd pa effaith fyddai'r £210k o'r gyllideb yn ei chael ar farchnata digwyddiadau mawr yn y ddinas. Roedd yr Arweinydd yn cydnabod bod hi'n braf cael Mentrau Corfforaethol, ond yn ystod cyfnodau o galedwch roedd angen dibynnu ar bartneriaid i gyflawni'r agenda; yn y gorffennol, roedd Cyngor Caerdydd wedi cario'r gost, ond roedd angen gweithio mewn partneriaeth bellach. Wrth gyfeirio at Ddigwyddiadau Mawr, atgoffwyd Aelodau eu bod yn cael eu cynnal mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac y byddai hyn yn parhau.

- Cyfeiriodd Aelodau yn ôl at y datblygiad ym Mae Caerdydd a'r gwersi oedd i'w dysgu yn y dyfodol, a gofynnwyd a oedd modd ffurfio rhyw fath o gorff i sicrhau nad oedd y camgymeriadau hyn yn digwydd eto. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod angen i Gynghorwyr lleol gymryd cyfrifoldeb; roedd y manylion penodol wedi'u gwneud yn glir ac y byddai cyfnodau monitro ac adolygu yn cael eu

cynnwys, roedd hi'n bwysig edrych ar holl agweddau ar y Cynllun Corfforaethol.

- Gofynnodd Aelodau i'r Cyngor, mewn perthynas ag enillion cynllunio, sicrhau bod arian Adran 106 yn cael ei drosglwyddo'n brydlon i'r cymunedau. Dywedodd Swyddogion eu bod ar hyn o bryd yn edrych ar newid y broses hon, ac y byddai sesiwn lawn o hyfforddiant Datblygu Aelodau ar gael yn y dyfodol.

- Cyfeiriodd Aelodau at y graff yn dangos niferoedd yr ymwelwyr a'r cyfnod di-newid ers 2016. Gofynnodd Aelodau a fyddai dileu'r ddwy swydd wag ym maes Twristiaeth yn ychwanegu at y dirywiad hwn. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod angen i unrhyw ddinas adnewyddu ac adfywio'r hyn y mae'n ei gynnig i ddenu ymwelwyr yn ôl i'r ddinas. Ychwanegodd mai'r hyn sy'n allweddol ar gyfer atynnu mwy o ymwelwyr yn rheolaidd yw'r Arena Dan Do, a fyddai'n denu mwy o bobl ac yn tanategu sut y caiff agweddau eraill ar yr agenda Economaidd, megis Trafnidiaeth, eu cyflawni. Ychwanegodd swyddogion fod dileu'r ddwy swydd wag yn bennaf yn adlewyrchu'r ffordd ddigidol y mae ymwelwyr yn mynd ati i archebu a phrofi digwyddiadau; gweler cyfnodau brig a chyfnodau tawel mewn unrhyw ddigwyddiad mawr, megis y Gemau Olympaidd a Chynghrair y Pencampwyr, roedd effeithiau'r digwyddiadau mawr hyn ar Gaerdydd yn hanfodol.

- Cyfeiriwyd Aelodau yn ôl at arian Adran 106 a'i fod yn cael ei neilltuo i Aelodau ward lleol, gan nodi y gallai fod problem o ran datblygiadau ar ffiniau wardiau a lle caiff y gwasanaethau maent yn eu defnyddio eu lleoli, gan nodi ei fod yn annhebygol y byddai unrhyw Aelod yn gwario'r arian y tu allan i'w ward. Dywedodd yr Aelod Cabinet y caent eu cyfyngu gan y gweithdrefnau Cynllunio mewn perthynas ag arian Adran 106 a lle y gellir ei wario; roedd angen gwneud gwaith ag Aelodau lleol o ran gwario'r arian ar fannau agored cyhoeddus.

- Gofynnodd Aelodau am sicrwydd y gwneir popeth i ennill yr holl grantiau posibl. Dywedodd Swyddogion eu bod yn tueddu i weithio mewn buddsoddi busnes i helpu eraill i gael y grantiau. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau arian ar gyfer projectau mawr a digwyddiadau mawr.

- Nododd Aelodau'r uchelgais mawr dros y ddwy flynedd nesaf mewn un portffolio'r Cyngor yn unig, a gofynnodd a oeddynt yn hyderus o gyflawni'r uchelgeisiau hyn. Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn hyderus a bod angen i'r weinyddiaeth rhoi mesurau ar waith i'w cyflawni.

- Roedd Aelodau'n falch o weld cyfeiriad at ddatblygu asedau hanesyddol y ddinas, a thrafodwyd datblygiad posibl y Gamlas a Ffosydd Cyflenwi'r Dociau. Gofynnodd Aelodau am sicrwydd bod y parciau, y Castell a stryd Parc Cathays, sy'n arbennig iawn i breswylwyr Caerdydd, yn cael eu hyrwyddo ynghyd â'r lleoliadau a'r atyniadau newydd. Dywedodd yr Arweinydd y cynhaliwyd trafodaeth ddamcaniaethol ynghylch agor y gamlas y tu ôl i Mill Lane/Ffordd Churchill; ychwanegodd y byddai man agored yng nghanol y ddinas ar y Sgwâr Canolog, ac o ran gosod lleoliadau, byddai'n rhoi ystyriaeth i sylwadau'r Aelodau. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod camlesi wedi'u llenwi,

ond roedd cyfle i agor y ffosydd cyflenwi ar Ffordd Churchill, ond roedd angen iddynt edrych ar beth sydd yno gan fod llawer o dyfiant. Ychwanegodd y gallai hyn fod wedi dod o ddatblygiad bach wrth ei ymyl. Caiff yr agenda ei rannu â Llywodraeth Cymru, mae angen cynnal nifer o adeiladau, mae ôl-groniad enfawr o ran adeiladau megis y Castell a Neuadd y Ddinas ac mae angen i bartneriaid fynd i'r afael â hyn.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at weithredwr ar gyfer y Castell, gan nodi y byddai hyn yn trosglwyddo'r risg ac yn rhoi incwm sicr. Nodwyd hefyd na fyddai datblygu'r Arena Aml-ddefnydd yn tynnu wrth atyniadau eraill y ddinas o reidrwydd, gan y byddai'n cynyddu nifer yr ymwelwyr â lleoliadau eraill, byddai'n gwella'r hyn sydd gan Gaerdydd ei gynnig. O ran y gyllideb, i gynnal y lleoliadau hyn rhaid adeiladu cronfeydd ad-dalu, a chafwyd trafodaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch sut i ddiogelu'r brifddinas i gyflawni ar gyfer Cymru.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod wedi ymweld â Glasgow yn ddiweddar, mae arena'r ddinas mewn ardal ddiwydiannol ac mae datgysylltiad rhwng canol y ddinas, yn debyg i Gaerdydd, nid effeithiwyd ar leoliadau eraill, mae'n denu pobl ledled y DU a'r tu allan i'r DU. Ychwanegodd yr Arweinydd os na fydd Caerdydd yn gwneud hyn, bydd Bryste yn mynd ati i'w wneud.

- Gofynnodd Aelodau ynghylch yr arbedion mewn perthynas â chronfa'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol a dywedwyd wrthynt y byddai cynnig i gael gwared ar y cymhorthdal a gweithredu ar yr un sail, a ni fyddai effaith sylweddol ar y defnyddiwr.

- Cyfeiriodd Aelodau at yr 'ystod o gynlluniau datblygu economaidd' yn llinell 90, a gofynnodd am eglurhad pellach. Dywedwyd wrth Swyddogion bod hyn yn cyfeirio at y Sgwâr Canolog.

- Cyfeiriodd Aelodau at linell 44 a'r maes parcio dros dro ar gyfer y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, gan ofyn lle fyddai hyn yn cael ei leoli. Gofynnodd Swyddogion fod hyn ar hyn o bryd yn seiliedig ar Safle 2, sydd wedi'i werthu ac mae angen dod o hyd i safle newydd.

- Nododd Aelodau nad oedd unrhyw gynnydd mewn ffi hurio ystafelloedd y Castell, a gofynnodd a oedd hyn yn gyfle a gollwyd. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y ffioedd yn cynyddu lle mae targedau wedi'u cyflawni, bydd yn edrych ar y rhai penodol hyn.

- Cyfeiriodd Aelodau at ehangu'r 'grwpiau cyfeillion', gan nodi pa mor werthfawr oedd y grwpiau hyn, ond roedd angen elfen o reoli arnynt, a ymgymerwyd gan y Gwasanaeth Ceidwaid yn gynt, cyn iddo gael ei dorri. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod heriau'n bodoli o hyd, er gwaetha'r ffaith bod y taliad wedi bod yn well na'r disgwyl, ac nid oedd yn realistig cael mwy o geidwaid yn ystod cyfnod mor anodd ym maes Addysg a Gofal Cymdeithasol ac ati. Ychwanegodd y Swyddogion fod angen meddwl yn greadigol o ran sut i ddefnyddio'r staff sydd ganddynt a dod â phobl i'r gwasanaeth.

- Wrth gyfeirio at y Rhaglen Gyfalaf, nododd yr Aelodau'r gwaith o adnewyddu cyfleusterau chwaraeon ac roedd hyn yn farchnad gystadleuol iawn ar hyn o

bryd. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n hoffi mwy o buddsoddiad oherwydd cyn y llynedd, doedd dim buddsoddiad wedi bod o gwbl. Dywedodd fod hwn yn maes dewisol ac roedd yn hinsawdd heriol. Roeddynt yn gweithio gyda chlybiau ac yn edrych ar bethau fesul blwyddyn, gan nad oedd yn realistig nodi'r ffigyrau ar gyfer y blynyddoedd yn y dyfodol. Roeddynt hefyd yn edrych ar Fand B a defnyddio'r ysgolion ar gyfer cyfleusterau chwaraeon cymunedol.

- Wrth gyfeirio at ddefnyddio'r ysgolion, gofynnodd Aelodau sut y gallai cymunedau ddefnyddio'r ysgolion ym Mand B yn y dyfodol. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yng nghanol trafodaethau i gyflawni hyn, i alluogi cymunedau i ddefnyddio'r cyfleusterau y tu allan i oriau'r ysgol, gan ychwanegu y dylai'r ysgol fod yn ased cymunedol ac felly dylai ei ddefnydd fod yn elfen ofynnol cyllido Band B mewn ysgolion uwchradd. Dywedodd yr Arweinydd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ynghylch telerau defnydd yr ysgolion, nid oedd yn dderbyniol cloi'r ysgolion am 3.30pm mwyach a dylent gael eu defnyddio fel cyfleusterau cymunedol, megis chwaraeon, ar ôl yr oriau hyn.

- Cyfeiriodd Aelodau at Fodel Darparu Amgen ar gyfer Canolfannau Hamdden gwerth £2.4m a gofynnwyd pa Ganolfannau oedd yn debygol o gael yr arian. Cytunodd yr Aelod Cabinet i gyflwyno'r wybodaeth honno i Aelodau.

**Cyfarwyddiaeth Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet – Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), y Cynghorydd Lynda Thorne (Aelod Cabinet – Tai a Chymunedau) , Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Pobl a Chymunedau), Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Tai a Chymunedau) a Nick Blake (Rheolwr Cymorth Busnes) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Thorne gan y Cadeirydd i wneud datganiad lle dywedodd ei bod hi'n falch bod y Cynllun Corfforaethol a'r gyllideb eleni'n canolbwyntio ar ddatblygu ymhellach y gwasanaethau hynny sy'n helpu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yng Nghaerdydd.

Un o themâu allweddol Uchelgais Prifddinas yw sut i sicrhau bod pawb yn elwa ar dwf Caerdydd a chefnogi pobl i ddianc o dlodi.

Mae rhaglen yr hybiau cymunedol, a fydd yn sefydlu hwb newydd yn Llaneirwg eleni, yn darparu gwasanaethau lleol i roi cymorth a chefnogaeth ymarferol i'r rhai y mae eu hangen arnynt.
Mae perfformiad yn yr Hybiau a'r llyfrgelloedd yn wirioneddol drawiadol, sef dros 3 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn, ac yn codi. Mae hyn yn sgil darparu gwasanaethau hanfodol a gwaith caled y swyddogion a'r partneriaid wrth gynnig ystod o ddigwyddiadau sy'n amrywio o stori draddodiadol/amser odli i ddigwyddiadau arbennig megis y digwyddiad Blue Monday diweddar.

Bydd integreiddio'r gwasanaethau cymorth cyflogaeth yn cychwyn ym mis Ebrill a thrwy borth syml at wasanaethau, bydd modd i unigolion ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau, cyrsiau a Mentora manwl i'r bobl sydd angen cefnogaeth a chymorth

ychwanegol a’r rhai sydd mewn cyflogaeth lle mae'r cyflog yn isel a chontractau dim oriau.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad ac ynddo dywedodd fod Addysg yn brif flaenoriaeth y weinyddiaeth, nad yw addysg yn gorffen ar giât yr ysgol a bod Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn hollbwysig gan fod addysg yn llwybr allan o dlodi.  Nodwyd llwyddiant a darpariaeth y rhaglen Dysgu am Oes.

Rhoddodd Jane Thomas gyflwyniad i’r Aelodau yn amlinellu gwybodaeth allweddol am Gamau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol, Mesuryddion Perfformiad, Cynigion Arbedion a'r Rhaglen Gyfalaf.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Nododd Aelodau fod Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn bwysig iawn ar gyfer cydlyniant cymunedol ac er mwyn lleihau allgau cymdeithasol.  Roedd Aelodau’n pryderu bod y prisiau’n atal pobl rhag cofrestru ar y cyrsiau a gofynnwyd a oedd modd i'r gwasanaeth ariannu ei hun.  Cytunodd yr Aelod Cabinet â manteision Cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac roedd wedi rhoi sicrwydd i Aelodau ei fod yn bwriadu cadw costau'r cyrsiau mor isel â phosibl; yn yr hinsawdd bresennol, ni allodd ymrwymo i gymorthdalu cyrsiau nawr nac yn y dyfodol.  Ychwanegodd Swyddogion y gallant fynd â’r hyn y mae’r grantiau yn eu hariannu, ond y byddant yn helpu i ariannu neu roi darpariaeth am ddim i fwy o bobl agored i niwed.  Nodwyd bod rhai cyrsiau yn eithaf drud i’w cynnal, mae’r Cyngor yn gweithio ar gost yn hytrach na gwneud elw ar y cyrsiau.

- Ystyriodd Aelodau y gellir cynnal sesiynau dysgu cymunedol mewn Hybiau a llyfrgelloedd.  Eglurodd yr Aelod Cabinet fod llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau eisoes yn cael eu cynnal mewn Hybiau a Llyfrgelloedd, ac mae nifer ohonynt yn weithgareddau am ddim, felly gellir bodloni anghenion pobl am gydlyniant cymunedol a lleihau allgau cymdeithasol yn y ffordd hon.

- Ystyriodd Aelodau y gallai Myfyrwyr Prifysgol fod yn rhan a chynorthwyo'r grwpiau dysgu cymunedol.

- Roedd Aelodau yn chwilio am fwy o wybodaeth am y cyfleusterau hybiau ychwanegol mewn llyfrgell.  Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai gwahanol ddulliau yn cael eu defnyddio mewn gwahanol leoliadau, roedd angen rhoi trefniadau partneriaeth ar waith a gwneud gwell ddefnydd ac ymestyn y cyfleusterau presennol.  Ychwanegwyd bod y llyfrgelloedd, fel y maent ar hyn o bryd hyd yn oed, yn cynnig nifer o weithgareddau i gynnwys y gymuned, megis nosweithiau ffilm, ac ati.

- Roedd Aelodau’n falch bod cyllideb yr Hybiau wedi cael ei diogelu, ond roeddynt yn parhau i bryderu am y pwysau y byddai cyflwyno Credyd Cynhwysol yng Nghaerdydd yn eu rhoi ar y gwasanaeth.  Dywedodd Swyddogion wrth Aelodau eu bod wedi cynllunio ar gyfer y pwysau, ac roedd cyflwyno’r Credyd Cynhwysol, mewn gwirionedd, yn un o’r prif resymau dros gyflwyno’r Hybiau.  Roedd gwaith wedi’i wneud i sicrhau bod yr Hybiau a’r Llyfrgelloedd yn barod am y pwysau, mae dros 90 o gyfrifiaduron wedi’u gosod

ledled y ddinas, byddai cyngor ar gyllido ar gael mewn lleoliadau ledled y ddinas ac mae staff wedi'u hyfforddi'n llawn.

- Wrth gyfeirio ar y gronfa lyfrau, gofynnodd Aelodau a oedd swyddogion yn dal i fod yn hyderus na fyddai unrhyw effaith ar allu'r Cyngor i fodloni Safonau Llyfrgelloedd Cymru. Dywedodd y swyddogion wrth Aelodau na fyddai unrhyw effaith ar hynny, mae Caerdydd yn gwneud yn dda i barhau i lenwi'r llyfrgelloedd a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar lyfrau i blant a llyfrau mewn ieithoedd amrywiol.

- Gofynnodd Aelodau sut roedd Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i fod yn rhan o Gyflogadwyedd. Eglurodd Swyddogion fod staff Cymunedau yn Gyntaf sy'n ymdrin â chyflogadwyedd yn dod i strwythur y Cyngor yn awtomataidd. Bydd hyn yn cael ei gwblhau erbyn 1 Mawrth 2018.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i gyfleu sylwadau'r pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

49 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant am 5.00pm ar 13 Chwefror 2018, Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.